**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Martin Reid
Cyfarwyddwr Polisi ar gyfer Cymru
y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd

Eugene Drennan
Rheolwr
Cymdeithas Cludo ar y Ffyrdd Iwerddon

21 Ionawr 2026

Annwyl Martin a Eugene,

**Cau Porthladd Caergybi**

Fel y gwyddoch, mae Porthladd Caergybi wedi cael dau ddigwyddiad angori yn ddiweddar, un ym mis Rhagfyr ac un arall yn gynharach y mis hwn. Arweiniodd y digwyddiad ym mis Rhagfyr at gau Terfynfa 5, tra bod y digwyddiad diweddaraf wedi arwain at gau'r Porthladd yn gyfan gwbl ar 7 Ionawr.

Roedd y wybodaeth a rannwyd gennych gyda'r Pwyllgor ynghylch y cyfnod cau yn 2024/25 yn ddefnyddiol iawn o ran galluogi'r Aelodau i ddeall sut yr effeithiodd y cyfnod cau ar gludwyr a'r problemau a wynebwyd ganddynt o ganlyniad. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu eich barn ar y cyfnod cau diweddaraf. Yn benodol, byddwn yn gwerthfawrogi eich barn ar y canlynol:

- Beth yw eich barn chi ar y gwahaniaethau rhwng yr ymateb i gyfnod cau 2024/25 a chyfnod cau 2026?
- Ydych chi o’r farn bod gwersi wedi'u dysgu o'r cyfnod cau diwethaf?
- Sut brofiad ydych chi wedi’i gael wrth ymgysylltu â Thasglu Môr Iwerddon?

- Roedd Llywodraeth Cymru yn gweithio ar strategaeth cludo nwyddau o'r blaen a dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y byddai gwaith y tasglu yn cyfrannu ati. Yn dilyn hynny, mae’r Ysgrifennydd Cabinet wedi cyhoeddi y bydd argymhellion y Tasglu yn cael eu hadlewyrchu mewn cynllun porthladdoedd a morwrol, cludo nwyddau a logisteg. A oes gennych chi unrhyw farn ar y penderfyniad hwn a gwaith ymgysylltu Llywodraeth Cymru ynghylch y strategaeth cludo nwyddau/cynllun newydd?

- A oes unrhyw beth arall yn eich barn chi a allai fod yn ddefnyddiol inni mewn perthynas â'r Porthladd a'r digwyddiadau?

Diolch ichi am eich ymgysylltu parhaus â'r Pwyllgor, mae eich cyfraniad yn arbennig o bwysig i'n helpu i ddeall y sefyllfa ac i lunio ein hargymhellion.

Rwy’n anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, gan fod trafnidiaeth yn rhan o’i gylch gwaith.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Copi i: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith